# *'Peidiwch ag anghofio am gyfraniad pwysig y dyniaethau!' – Arolwg o Farn Darpar Athrawon am y Cwricwlwm Cymreig*

DR GERAINT DAVIES A DR SIONED HUGHES
*Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant*

ABSTRACT

A detailed questionnaire containing questions about the Cwricwlwm Cymreig was completed by nintey-four of the ninety-six student teachers on a third year BA in primary education with QTS programme at a university in Wales. The findings indicated that there was overwhelming support for the Cwricwlwm Cymreig but that there were several challenges which were faced when planning for this area. The danger of schools neglecting the humanities was highlighted as RE, history and geography were considered to make a highly significant contribution to pupils' understanding of the Cwricwlwm Cymreig. These findings have implications for all who are concerned with the delivering of the Cwricwlwm Cymreig in Wales.

**Key words:** the Cwricwlwm Cymreig, education, primary school, Welshness, heritage and values, humanities, school planning, resources, policy

## *Cyflwyniad*

Diben yr erthygl hon yw archwilio barn darpar athrawon am y Cwricwlwm Cymreig. Yn y rhan gyntaf ceir trosolwg o natur a datblygiad y Cwricwlwm

*https://doi.org/10.16922/wje.18.2.6*

Cymreig ac yn yr ail ran trafodir ymatebion y darpar athrawon i ystod o gwestiynau am y maes hwn. Gobeithir y bydd yr arolwg yn rhoi goleuni ar argraffiadau darpar athrawon o'r canlynol: y Cwricwlwm Cymreig a'i werth; yr heriau a wynebir wrth gynllunio ar gyfer y maes hwn; a'r cyfraniad y gall y dyniaethau ei wneud i'r Cwricwlwm Cymreig. Gobeithir hefyd y bydd yr astudiaeth yn bwrw golwg unigryw ar brofiadau darpar athrawon wrth iddynt geisio addysgu'r Cwricwlwm Cymreig yn eu hysgolion lleoliad yn ystod eu profiadau addysgu proffesiynol.

### *Beth yw'r Cwricwlwm Cymreig?*

Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn gwricwlwm *i* Gymru ac *am* Gymru. Mae i Gymru yn yr ystyr ei fod yn gwricwlwm penodol i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae am Gymru am ei fod yn canolbwyntio ar agweddau allweddol sy'n adlewyrchu bywyd yng Nghymru heddiw, gan gynnwys 'Cymreictod', diwylliant, yr amgylchedd a hanes Cymru. Yn 1991, diffiniodd Cyngor Cwricwlwm Cymru (CCC) y Cwricwlwm Cymreig yn 'gwricwlwm sy'n ymwneud â Chymru ac un sy'n cwmpasu ac yn adlewyrchu, yn ei gynnwys neu ei enghreifftiau, ddiwylliannau Cymraeg a Saesneg y wlad a'r holl amrywiaeth o ddylanwadau hanesyddol, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd wedi ffurfio'r Gymru gyfoes' (CCC, 1991a: 4). Nododd y CCC dair nodwedd sy'n cyfrannu at arbenigrwydd y Cwricwlwm Cymreig: yr iaith Gymraeg fel pwnc ac fel cyfrwng addysgu a dysgu; agweddau ar gynnwys y cwricwlwm sy'n neilltuol i Gymru; a 'Chymreictod' cyffredinol profiadau dysgu disgyblion. Cyflwynodd y cysyniad o gwricwlwm 'Cymreig' ond nododd: 'bydd Cymreigrwydd y cwricwlwm yn ei amlygu ei hun mewn ffordd wahanol ym mhob ysgol. Er hynny, dylid dysgu pob pwnc mewn ffordd sy'n sicrhau bod y cynnwys yn ystyrlon a pherthnasol i brofiad y disgyblion eu hunain o fewn eu cymunedau' (CCW, 1991b: 5).

Yn ôl Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC; 2003), mae gan y Cwricwlwm Cymreig bum agwedd, sef, un ieithyddol, un ddiwylliannol, un hanesyddol, un amgylcheddol ac un economaidd. Dylai agwedd ieithyddol y Cwricwlwm Cymreig ganolbwyntio ar 'defnyddio'r iaith Gymraeg gan roi cyfle i bawb i'w dysgu a'i defnyddio i greu ethos ysgol sy'n adlewyrchu safle'r ysgol fel ysgol yng Nghymru'. Dylid canolbwyntio ar Gymru fel gwlad ddwyieithog gan gydnabod ar yr un pryd fod Cymru yn wlad amrywiol amlieithyddol. Dylai'r agwedd



05 Davies & Hughes WJE.indd 63 05/10/2016 10:40

ddiwylliannol ganolbwyntio ar faterion megis dathlu diwylliannau, llenyddiaethau a thraddodiadau Cymru gan barchu ar yr un pryd werthoedd diwylliannau eraill. Dylai disgyblion ddysgu nid yn unig am grefydd a thraddodiadau yn y gorffennol, ond hefyd ddysgu gwerthfawrogi a pharchu Cymru heddiw fel cenedl amlddiwylliannol ac amlffydd. Wrth ymdrin â'r agwedd hanesyddol, awgrymodd ACCAC (2003) y dylai disgyblion gael cyfle i ddod i ddeall am y modd y lluniwyd bywydau a lleoliadau gan y gorffennol trwy ddysgu am hanes Cymru ac ymweld â safleoedd hanesyddol, defnyddio arteffactau, gwneud cymariaethau rhwng y gorffennol a'r presennol, a datblygu dealltwriaeth o'r modd y mae'r rhain wedi newid dros amser. Dylai'r agwedd amgylcheddol ganolbwyntio ar ddysgu am y berthynas rhwng yr amgylchedd a phobl Cymru a'r effaith a gaiff hyn ar fywyd Cymru heddiw ac yn y gorffennol gan archwilio pynciau cyfoes sy'n effeithio ar fywyd pobl yng Nghymru ac economi Cymru. Gyda'r elfen economaidd dylid gosod y pwyslais ar ddysgu sut y gall datblygiad adnoddau a thechnoleg yn y gorffennol ac yn y presennol newid yng Nghymru gan roi sylw arbennig i'r modd y mae diwydiannau glo, llechi a diwydiannau amaethyddol wedi ffurfio cymeriad economaidd a gwleidyddol Cymru. Awgrymodd ACCAC (2003) hefyd y dylid rhoi sylw i astudio economi bresennol Cymru.

*Sut mae'r Cwricwlwm Cymreig wedi datblygu?*

Yn sicr nid cwbl newydd oedd y syniad o ddimensiwn Cymreig pendant yng nghwricwlwm ysgolion cynradd ac uwchradd Cymru. Am y rhan helaethaf o'r ugeinfed ganrif, bu trafod a dadlau am gynnwys y dimensiwn Cymreig o fewn cwricwlwm yr ysgol mewn pamffledi ac adroddiadau niferus (er enghraifft, Y Bwrdd Addysg, 1927; Adran Gymreig y Weinyddiaeth Addysg, 1949; a'r Cyngor Ysgolion, 1979). Yn y ddogfen *Y Cwricwlwm a'r Gymuned yng Nghymru* a gyhoeddwyd gan Adran Gymreig y Weinyddiaeth Addysg yn 1952, cyfeiriwyd at rai o elfennau 'eraill' 'Cymreictod' gan gynnwys yr angen i bob plentyn yng Nghymru fod yn ymwybodol o'i gymuned hanesyddol ac o'i ddiwylliant a'i iaith ei hun. Datblygwyd ymhellach y ddadl fod gan bob disgybl yr hawl i addysg a fyddai'n ei alluogi i archwilio ei Gymreictod yn Adroddiad Gittins (1967) a bwysleisiai y dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu ymwybyddiaeth o'u cefndiroedd diwylliannol eu hunain a rhan yr ysgol ynghylch gorwelion diwylliannol sy'n ehangu.



05 Davies & Hughes WJE.indd 64 05/10/2016 10:40

Yn 1988 cynigodd Deddf Diwygio Addysg 1988 Gwricwlwm Cenedlaethol penodedig i Loegr a Chymru ynghyd â chyfle i ysgolion gwladol yng Nghymru greu, am y tro cyntaf, gwricwlwm 'Cymreig' – cwricwlwm a fyddai'n galluogi disgyblion i archwilio eu Cymreictod. Cafodd CCC y cyfrifoldeb o lunio canllawiau anstatudol, a arweiniodd yn y pen draw at ddatblygu Cwricwlwm Cenedlaethol Cymru. Rhoddwyd canllawiau gan y CCC i helpu ysgolion i weithredu'r Cwricwlwm Cymreig yn *Y Cwricwlwm Cyflawn 5–16 yng Nghymru* (1991) a *Phapur Ymgynghorol 18: Datblygu Cwricwlwm Cymreig* (1993). Fodd bynnag, er mwyn sicrhau cwricwlwm cenedlaethol i Gymru a fyddai'n adlewyrchu iaith, diwylliant, amgylchedd, economi a hanes Cymru, a'r dylanwadau sydd wedi ffurfio'r wlad sydd ohoni, cyhoeddodd ACCAC (2003) ganllawiau pellach yn y ddogfen *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig.*

Trwy gydol yr holl adolygiadau ar y Cwricwlwm Cenedlaethol (1995–6, 2000, 2008) yng Nghymru a chyflwyniad fframwaith newydd ar gyfer dysgu plant, sef *Y Cyfnod Sylfaen – Fframwaith ar gyfer dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru* (2008), parhaodd y Cwricwlwm Cymreig i gael rhan flaenllaw. Nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008: 11) y 'dylai'r Cwricwlwm Cymreig fod yn sail i'r holl gwricwlwm ar gyfer dysgwyr 3–14'. Cynhyrchodd Estyn hefyd enghreifftiau o astudiaethau arfer dda i ysgolion yn eu dogfen Y *Cwricwlwm Cymreig. Dimensiwn Cymreig y Cwricwlwm yng Nghymru: arfer dda mewn addysgu a dysgu* (2001). Gwnaed cyfeiriadau hefyd yn y ddogfen hon at yr heriau sy'n wynebu ysgolion wrth weithredu'r Cwricwlwm Cymreig megis y flaenoriaeth isel a roddir i'w datblygiad ar agenda ysgolion, diffyg dealltwriaeth o athroniaeth y Cwricwlwm Cymreig gan athrawon a phrinder yr adnoddau addysgu a dysgu sydd ar gael. Ymchwilir yn fanylach i rai o'r materion hyn yn ail hanner yr erthygl hon.

Mae lle'r Cwricwlwm Cymreig yn parhau cyn gryfed ag erioed. Yn y cynllun gwella addysg *Cymwys am Oes* (Llywodraeth Cymru, 2014) dywed gweinidog addysg Cymru, Huw Lewis, y dylem (sef Cymru) 'fod yn gryf yn ein hunaniaeth genedlaethol, ein sgiliau ac ein lle yn y byd, gydag ymwybyddiaeth o'n tarddiad fel cenedl, ein gallu i warchod yr hyn sy'n dda ac i herio'r hyn y mae angen ei newid' (Llywodraeth Cymru, 2014: 1). Pwysleisiwyd hyn ymhellach yn adolygiad annibynnol yr Athro Graham Donaldson o'r cwricwlwm a'r trefniadau asesu yng Nghymru, *Dyfodol Llwyddiannus*, a gyhoeddwyd yn Chwefror 2015 (Llywodraeth Cymru, 2015a), lle nododd yn ei argymhellion y 'dylai'r cwricwlwm newydd a ddylunnir fod yn "ddilys" ac wedi'i wreiddio yng ngwerthoedd a diwylliant Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015a: 31).

Yn yr erthygl hon, ceisir archwilio barn darpar athrawon ynghylch pum pwnc sy'n gysylltiedig â'r Cwricwlwm Cymreig (YCC). I ddechrau, archwilir eu hargraffiadau o werth a natur gyffredinol YCC. Yn ail, ystyrir y farn ynghylch y cyfraniad y gall YCC ei wneud i addysg disgyblion. Yn drydydd, trafodir pwysigrwydd a rydd yr ymatebwyr i bum elfen yr YCC a gydnabyddir yn gyffredinol: diwylliant, hanes, amgylchedd, iaith a'r economi. Yn bedwerydd, archwilir yr heriau a wynebir ganddynt wrth addysgu YCC. Yn olaf, edrychir ar argraffiadau ynghylch cyfraniad hanes, daearyddiaeth ac addysg grefydd at YCC.

*Sampl*

Anfonwyd holiadur manwl at bob myfyriwr trydedd flwyddyn ar gwrs gradd BA mewn addysg gynradd gyda SAC mewn prifysgol yng Nghymru. Allan o garfan o 96 o fyfyrwyr, dychwelwyd 94 o holiaduron, gan roi sgôr ymateb o 97 y cant.

*Holiadur*

Defnyddiodd rhan un o'r holiadur gwestiynau amlddewis i gasglu gwybodaeth ynghylch yr ymatebwyr. Roedd y newidynnau yn cynnwys rhyw, oedran a'r cyfrwng yr astudiwyd y cwrs hyfforddi trwyddo. Roedd 129 o gwestiynau yn rhan dau o'r holiadur er mwyn asesu ystod o safbwyntiau ynghylch YCC. Aseswyd yr eitemau hyn ar raddfa pum pwynt: anghytuno'n gryf, anghytuno, ansicr, cytuno a chytuno'n gryf.

*Ymatebwyr*

Roedd 15 o'r ymatebwyr yn ddynion (16 y cant) a 79 yn fenywod (84 y cant). Dosbarthwyd oedran yr ymatebwyr yn dri grŵp. Perthynai 92 (98 y cant) o'r ymatebwyr rhwng 20 a 29 oed i'r grŵp cyntaf sef rhwng 20 a 29 oed; gyda 1 ymatebwr (1 y cant) yn perthyn i'r ail grŵp sef rhwng 30 a 39 oed ac 1 ymatebwr (1 y cant) yn perthyn i'r trydydd grŵp sef rhwng 40 a 49 oed. Roedd 34 (36 y cant) yn fyfyrwyr cyfrwng Cymraeg a 60 (64 y cant) yn fyfyrwyr cyfrwng Saesneg.



05 Davies & Hughes WJE.indd 66 05/10/2016 10:40

*Dadansoddi data*

Dadansoddwyd y data gan becyn cyfrifiaduron SPSS (SPSS Inc., 1988). Seilir yr ystadegau ar y categorïau 'cytuno' a 'chytuno'n gryf' a gyfunwyd at ddibenion yr astudiaeth hon.

*Canlyniadau a thrafodaeth*

Dengys Tabl 1 fod cefnogaeth helaeth i'r Cwricwlwm Cymreig ymhlith yr ymatebwyr. Teimlai 84 y cant y dylai'r Cwricwlwm Cymreig fod yn rhan hanfodol o addysg pob disgybl yng Nghymru. Teimlai tua thri chwarter nad Cymru a ddylai fod yr unig ranbarth yn y Deyrnas Unedig i gael ei gwricwlwm penodol ei hun. Teimlai'r rhan fwyaf (77 y cant) y dylai disgyblion yn yr Alban a Gogledd Iwerddon (72 y cant) gael addysg a adlewyrchai arbenigrwydd y wlad y maent yn byw ynddi. Yr hyn sy'n ddiddorol yw bod canran sylweddol is (44 y cant) yn teimlo y dylai disgyblion yn Llundain, Cernyw a Manceinion gael yr un fraint. Dengys y data hefyd y gred y dylai fod gan bob un o wledydd y DU gwricwlwm penodol ond nad oes angen hyn ar gyfer rhanbarthau unigol oddi mewn i'r gwledydd hynny. Dengys y data hefyd gydnabyddiaeth o'r angen am hyblygrwydd o ran darpariaeth YCC oherwydd natur amrywiol Cymru (53 y cant). Ceir cydnabyddiaeth hefyd y dylai'r ddarpariaeth mewn ysgol wledig cyfrwng Cymraeg fach amrywio o'i chymharu â'r ddarpariaeth mewn ysgol drefol fawr cyfrwng Saesneg yng Nghymru. Rhywbeth arall sy'n ymhlyg yn y ffigurau yw'r gydnabyddiaeth, er bod YCC yn hanfodol, na ddylai fod ond yn un rhan o ddarpariaeth addysgol eang, gytbwys ac y gallai gorbwysleisio'r agwedd hon (ar draul agweddau eraill megis dinasyddiaeth fyd-eang) arwain at ddisgyblion sy'n rhy ynysig a mewnblyg (54 y cant). Teimlai dros hanner (54 y cant) ei bod yn haws hyrwyddo YCC yng nghyfnod allweddol dau nag yn y cyfnod sylfaen.

Archwilia Tabl 2 farn yr ymatebwyr ynghylch y cyfraniad pwysig y gallai y Cwricwlwm Cymreig ei wneud i addysg pob disgybl yng Nghymru. Teimlai bron pawb yn y sampl y gallai'r Cwricwlwm Cymreig helpu disgyblion gyda'r canlynol: datblygu syniad o le a threftadaeth (96 y cant); deall a dathlu hynodrwydd byw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain (95 y cant); nodi eu syniad eu hunain o 'Cymreictod' (95 y cant) a chael syniad o berthyn (88 y cant). Mae Cymru yn wlad ar wahân ac iddi ei hanes, ei threftadaeth, ei thraddodiadau a'i diwylliant ei hun. Ymhlyg yn y ffigurau mae'r ddealltwriaeth nad un diwylliant yn unig sydd



05 Davies & Hughes WJE.indd 67 05/10/2016 10:40

**Tabl 1. Barn am y Cwricwlwm Cymreig**

| | % cytuno |
|---|---|
| Dylai'r Cwricwlwm Cymreig fod yn rhan hanfodol o addysg pob disgybl yng Nghymru | 84 |
| Dylai fod gan yr Alban hefyd Gwricwlwm Albanaidd penodol sy'n dathlu nodweddion nodedig y rhanbarth | 77 |
| Dylai fod gan Ogledd Iwerddon hefyd gwricwlwm penodol i Ogledd Iwerddon sy'n dathlu nodweddion nodedig y rhanbarth | 72 |
| Mae'n haws hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn CA2 nag yn y cyfnod sylfaen | 54 |
| Gallai canolbwyntio'n ormodol ar y Cwricwlwm Cymreig wneud disgyblion yn rhy ynysig a mewnblyg | 54 |
| Oherwydd natur amrywiol Cymru dylai'r Cwricwlwm Cymreig gymryd ffurfiau gwahanol mewn gwahanol ysgolion | 53 |
| Dylai fod gan ranbarthau llai megis Llundain, Cernyw a Manceinion hefyd eu cwricwlwm penodol eu hunain | 44 |

gan Gymru ond nifer a bod y rhain yn ddeinamig ac yn esblygu'n barhaus. Teimlai tri chwarter o'r sampl y gallai y Cwricwlwm Cymreig helpu plant i ddathlu amrywiaeth, a dywed 69 y cant y dylai helpu disgyblion i fod yn well dinasyddion byd-eang a datblygu diddordeb mewn datblygu cynaliadwy. Adlewyrchir hefyd yma y pwyslais a roddwyd gan ACCAC (2003) sef y dylai'r Cwricwlwm Cymreig helpu disgyblion i 'ddatblygu eu dealltwriaeth o Gymru gydwladol sy'n edrych allan i'r byd, gan hybu dinasyddiaeth fyd-eang' (ACCAC, 2003: 2).

Archwilia Tabl 3 i ba raddau y teimla'r ymatebwyr fod pum agwedd y Cwricwlwm Cymreig a nodir yn gyffredinol mewn dogfennau allweddol (e.e. ACCAC, 2003: 4–5) sef, y diwylliannol, yr economaidd, yr amgylcheddol, yr hanesyddol a'r ieithyddol, yn berthnasol i gyd-destun yr ysgol gynradd. Rhoddwyd y gwerth uchaf i'r agwedd ddiwylliannol (98 y cant) ac wedyn yr agweddau hanesyddol (97 y cant), amgylcheddol (94 y cant), ieithyddol (90 y cant) ac economaidd (52 y cant) yn eu tro. Roedd yn amlwg i ddathlu a deall diwylliannau, hanes, amgylcheddau ac ieithoedd penodol Cymru a pharchu ar yr un pryd gwerthoedd, amgylcheddau a thraddodiadau diwylliannau eraill gael blaenoriaeth uchel gan bron pob un o'r ymatebwyr. Er bod modd dadlau'n gryf am ddysgu am weithgarwch economaidd penodol Cymru yn yr ysgol gynradd,[1] caiff yr elfen hon



05 Davies & Hughes WJE.indd 68 05/10/2016 10:40

**Tabl 2. Gall y Cwricwlwm Cymreig helpu disgyblion i...**

| | *% cytuno* |
|---|---|
| datblygu syniad o le a threftadaeth | 96 |
| deall a dathlu yr hyn sy'n arbennig am fyw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain | 95 |
| adnabod eu syniad ei hun o 'Gymreictod' | 95 |
| cael syniad o berthyn | 88 |
| ymdeimlad dwysach o berthyn i'w cymuned leol a'u gwlad | 82 |
| dathlu amrywiaeth | 75 |
| dod yn well dinasyddion byd-eang a datblygu gofal am ddatblygiad cynaliadwy | 69 |

flaenoriaeth sylweddol is yng ngolwg yr ymatebwyr. Ceir hefyd awgrym yn y ffigurau hyn bod yr elfen economaidd yn fwy perthnasol i ysgolion uwchradd yn hytrach nag ysgolion cynradd. Fodd bynnag, pan anogir yr ymatebwyr ynghylch cyfraniad daearyddiaeth i'r Cwricwlwm Cymreig, datguddia Tabl 7 iddynt gydnabod cyfraniad y pwnc o ran helpu disgyblion i ddeall y rôl a chwaraeodd diwydiant ac amaethyddiaeth wrth ffurfio hunaniaeth Cymru (95 y cant) a rôl diwydiant yn eu cymuned leol (83 y cant). Fodd bynnag, pan ystyrir y pum agwedd ochr yn ochr mae'n amlwg mai'r agwedd economaidd yw'r un isaf ei blaenoriaeth. Os disgwylir i'r plant chwarae rhan weithgar ac effeithiol ym mywyd economaidd Cymru yn y dyfodol mae'n hanfodol eu hannog i gymryd diddordeb yn yr agwedd hon o oedran ifanc ymlaen. Awgryma'r ffigurau fod hwn yn faes a fyddai'n elwa o feddwl a datblygiad pellach gan addysgwyr ac ymarferwyr sy'n ymwneud ag addysg gynradd yng Nghymru. Gellir hybu sgiliau byw megis sgiliau rhifedd a llythrennedd trwy wedd economaidd y Cwricwlwm Cymreig. Dyluniwyd y *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol* (Llywodraeth Cymru, 2013) i helpu athrawon i gynnwys llythrennedd a rhifedd ym mhob pwnc ar gyfer dysgwyr rhwng 5 a 14 oed. Bydd modd i athrawon ddefnyddio *FfLlRh* i gynnwys llythrennedd a rhifedd wrth addysgu – beth bynnag y pwnc. Oddi mewn i lythrennedd anogir dysgwyr i ddod yn fedrus ym maes llafaredd, darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm ac oddi mewn i rifedd disgwylir i ddysgwyr ddod yn fedrus o ran datblygu rhesymu rhifol, defnyddio rhif, mesur a sgiliau data ar draws y cwricwlwm.



05 Davies & Hughes WJE.indd 69 05/10/2016 10:40

**Tabl 3. Mae'r canlynol yn elfennau hanfodol o'r Cwricwlwm Cymreig yn yr ysgol gynradd:**

| | *% cytuno* |
|---|---|
| diwylliant | 98 |
| hanes | 97 |
| amgylchedd | 94 |
| iaith | 90 |
| economi | 52 |

Er i dablau 1 i 3 ddangos tystiolaeth o gefnogaeth aruthrol i'r Cwricwlwm Cymreig, ymwybyddiaeth o'i werth posibl i ddisgyblion ac eglurder ynghylch ei natur, dengys Tabl 4 i'r gwaith cynllunio ar gyfer y maes hwn yn eu lleoliadau ysgol fod yn aml yn heriol i'r ymatebwyr. Teimlai'r mwyafrif eu bod yn wynebu chwe phrif her wrth baratoi i weithredu'r Cwricwlwm Cymreig. Y brif her oedd tuedd ysgolion i ganolbwyntio'n ormodol ar ddelweddau ystrydebol o Gymreictod. Rhybuddiodd ACCAC (2003) y dylai ysgolion fod yn wyliadwrus yn hyn o beth am na fu Cymru erioed yn gymdeithas homogenaidd.

> Mae'r delweddau safonol o ddoliau mewn gwisg Gymreig, baneri y ddraig goch, cennin Pedr, cestyll a defaid yn werthfawr, i ryw raddau, wrth helpu i gyfleu teimlad o hunaniaeth, i ddisgyblion iau. Os parheir i'w defnyddio gyda disgyblion hŷn, mae'n rhoi argraff ffug iawn o Gymru yn y byd modern. (ACCAC, 2013: 6)

Teimlai dros bedair rhan o bump o'r sampl (83 y cant) eu bod wedi dod ar draws hyn mewn ysgolion yn ystod eu lleoliadau a bod hyn yn creu heriau iddynt wrth geisio cynnwys y Cwricwlwm Cymreig yn yr hyn a addysgant. Tanlinellwyd y pryder hwn gan sylw oddi wrth un ymatebwr gonest iawn:

> After spending much time planning with my class teacher on my last placement we finally came round to the Cwricwlwm Cymreig. Even though we both knew better, we found ourselves easily drawn to the stereotypes we knew we should avoid just in order to fill the YCC section of our planning grid. Teachers, and especially student teachers have so much planning to do that this is an easy trap to fall into.

Her bellach i dros bedair rhan o bump (82 y cant) o'r sampl oedd y duedd i ysgolion gysylltu'r Cwricwlwm Cymreig yn bennaf â gwersi iaith Gymraeg. Nododd un ymatebwr yn ei hysgol lleoliad fod:



05 Davies & Hughes WJE.indd 70 05/10/2016 10:40

> several teachers considered that they had covered the Cwricwlwm Cymreig whilst teaching second language Welsh lessons. This is a real shame because there were so many other exciting opportunities within the curriculum for them to promote feelings of Welshness and belonging to Wales.

Nododd ymatebwr arall:

> It can be very awkward when one's own definition of the Cwricwlwm Cymreig, is so much broader than that of one's teaching practice school. It sounds very conceited if we try to tell schools that the Cwricwlwm Cymreig is much more than learning Welsh and celebrating Saint David, so we keep quiet about it because we don't want to rock the boat and antagonise our mentors and class teachers.

Pwysleisiodd dros dri chwarter (77 y cant) o'r sampl fod y diffyg cynllunio yn yr ysgol a'r diffyg arweiniad yn Fframwaith y Cyfnod Sylfaen a dogfennau'r Cwricwlwm Cenedlaethol (77 y cant) yn heriau sylweddol wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig. Teimlai bron i ddwy ran o dair o'r sampl (64 y cant) fod dogfennau polisi ysgolion yn rhy annelwig a heb eu personoleiddio'n ddigonol. Nododd un ymatebwr:

> roedd y ddogfen bolisi ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn fy ysgol i yn darllen yn debyg i gopi air am air o gyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y pwnc. Efallai ei bod hi'n ymddangos yn wych, ond doedd hi o ddim help i mi wrth geisio darganfod sut oedd yr ysgol hithau yn gobeithio dysgu'r Cwricwlwm Cymreig.

Nododd 68 y cant o'r ymatebwyr fod prinder adnoddau addas yn ei gwneud yn anodd paratoi ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig. Mynegodd un ymatebwr bryder bod ysgolion yn dueddol o ddefnyddio cynlluniau a gynhyrchwyd yn fasnachol ac a ddyluniwyd yn bennaf ar gyfer ysgolion yn Lloegr ar gyfer eu gwaith cynllunio:

> Ar fy nau leoliad, defnyddiodd yr ysgolion _________ [enw cynllun a gynhyrchwyd yn fasnachol] i'w helpu nhw i gynllunio. Byddai hwn wedi bod yn ardderchog pe bawn i wedi bod yn dysgu y tu allan i Gymru ond roedd e'n hollol ddi-fudd wrth i mi geisio cynllunio ar gyfer YCC. Roedd hi'n rhyfedd i mi fod y dosbarth Cyfnod Sylfaen yn astudio Tân Mawr Llundain pan oedd cynifer o ddigwyddiadau hanesyddol perthnasol yng Nghymru y gallen nhw wedi bod yn eu hastudio.

Adlewyrcha hyn sylw Estyn (2001) fod gwendidau o ran addysgu a dysgu mewn lleiafrif o ysgolion yn deillio o ffactorau megis 'athrawon yn aml yn colli cyfleoedd da i gynllunio cyd-destun Cymreig ar gyfer y gwaith' ac yn dangos 'diffyg diddordeb yng Nghymru a'i thraddodiadau, neu nid oes ganddynt lawer o wybodaeth a dealltwriaeth amdanynt' (Estyn, 2001: 19). Tynnodd Estyn hefyd sylw at y ffaith fod gan athrawon ymwybyddiaeth



05 Davies & Hughes WJE.indd 71 05/10/2016 10:40

**Tabl 4. Yr heriau mwyaf sydd wedi dod i'm rhan wrth gynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn fy ysgol i fu…**

| | *% cytuno* |
|---|---|
| y duedd i ganolbwyntio ar ddelweddau ystrydebol o Gymreictod e.e. dathlu Dydd Gŵyl Dewi, 'pice ar y maen' | 83 |
| y duedd i ysgolion gysylltu'r Cwricwlwm Cymreig yn bennaf â dysgu'r Gymraeg | 82 |
| diffyg arweiniad oddi mewn i Feysydd Dysgu (CS) a dogfennau'r cwricwlwm cenedlaethol | 77 |
| diffyg cynlluniau ysgol yn y maes hwn | 77 |
| argaeledd cyfyngedig adnoddau addas | 68 |
| dogfennau polisi sydd yn rhy annelwig ac heb eu personoleiddio'n ddigonol | 64 |

gyfyngedig o ystod ac ansawdd yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysgu'r Cwricwlwm Cymreig ac roeddent yn rhy barod i ddibynnu ar ddeunyddiau a gynhyrchwyd yn fasnachol ac a anelwyd at ddisgyblion mewn gwledydd eraill yn y Deyrnas Unedig a fethai yn aml ag adlewyrchu dimensiwn Cymreig pan fyddai hyn wedi bod yn berthnasol (Estyn, 2001: 4–5).

Ystyria Tabl 5 argraffiadau'r ymatebwyr o'r cyfraniad posibl y gall addysg grefyddol ei wneud i'r Cwricwlwm Cymreig. Dengys y ffigurau'n glir fod y mwyafrif llethol yn credu y gall addysg grefyddol wneud cyfraniad sylweddol i'r maes hwn mewn amrywiaeth o ffyrdd. Awgrymant eu bod yn awyddus i alluogi disgyblion i gael dealltwriaeth bod Cristnogaeth a'r crefyddau eraill a gynrychiolir yn y wlad yn grefyddau byw a arferir gan amrywiaeth o bobl mewn gwahanol rannau o Gymru. Teimlai 85 y cant y dylai disgyblion gael eu galluogi i gael gwybodaeth am Gristnogaeth yng Nghymru a dywed ffigwr ychydig yn uwch (87 y cant) y dylid galluogi disgyblion ysgolion cynradd i gael gwybodaeth a dealltwriaeth am grefyddau'r byd yng Nghymru. Mae cydnabyddiaeth yn y ffigurau nad oes unrhyw le i addysg grefyddol gyffesol yng nghwricwlwm ysgolion Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain ac y dylid gwneud disgyblion yn ymwybodol o natur amrywiol grefyddol cymdeithas y Gymru fodern.

Mae'n amlwg o'r data fod yr ymatebwyr yn teimlo y dylai'r Cwricwlwm Cymreig helpu disgyblion i ddatblygu ymwybyddiaeth o hanes crefydd yng Nghymru a'r modd y mae hyn wedi dylanwadu ar gymdeithas y



05 Davies & Hughes WJE.indd 72 05/10/2016 10:40

Gymru fodern. Honnodd bron pawb y dylai disgyblion ddysgu am leoedd arbennig o ddiddordeb crefyddol yng Nghymru (97 y cant) a dysgu am hanes crefydd yng Nghymru (97 y cant). Teimlai nifer tebyg y dylai disgyblion ysgol gynradd archwilio dylanwad crefydd ar agweddau ar fywyd yng Nghymru (94 y cant) a gwrando ar hanesion am arweinwyr crefyddol yng Nghymru (91 y cant).

Dengys yr ystadegau fod bron pawb (97 y cant) yn credu y dylai gwersi addysg grefyddol roi profiad uniongyrchol o grefydd, megis ymweld â safleoedd crefyddol, gan ddefnyddio arteffactau a defnyddio ymwelwyr. Teimlai nifer bron yr un mor uchel (94 y cant) y dylai addysg grefyddol fanteisio ar adnoddau sydd i'w cael yn y gymuned leol. Teimlai dros bedair rhan o bump (84 y cant) y dylid rhoi cyfleoedd i ddisgyblion ddathlu gwahanol wyliau crefyddol.

Dengys Tabl 6 fod yr ymatebwyr yn teimlo bod gan hanes gyfraniad hanfodol i'w wneud i'r Cwricwlwm Cymreig. Dywedodd pob ymatebwr fod y cyfraniad hwn yn cynnwys archwilio hanes Cymru (100 y cant) a hanes y gymuned leol (100 y cant). Yn yr un modd ag yn achos addysg grefyddol, teimlai'r ymatebwyr y dylai'r disgyblion ysgol gynradd gael profiad uniongyrchol o ffynonellau hanesyddol a bod yn rhan o amrywiaeth o weithgareddau dysgu gweithredol megis ymweld â safleoedd hanesyddol (98 y cant); defnyddio arteffactau ac adnoddau (97 y cant); a gwneud

**Tabl 5. Dylai addysg grefyddol hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig trwy roi cyfleoedd i ddisgyblion…**

| | *% cytuno* |
|---|---|
| defnyddio safleoedd crefyddol, arteffactau ac ymwelwyr | 97 |
| dysgu am leoedd pwysig o ddiddordeb crefyddol yng Nghymru | 97 |
| dysgu am hanes crefydd yng Nghymru | 97 |
| archwilio'r celfyddydau mynegiannol crefyddol yng Nghymru: cerddoriaeth, llenyddiaeth, celfyddyd ac adeiladau crefyddol | 95 |
| manteisio ar yr adnoddau sydd i'w cael yn y gymuned leol | 94 |
| archwilio dylanwad crefydd ar agweddau ar fywyd yng Nghymru | 94 |
| gwrando ar straeon am arweinwyr crefyddol yng Nghymru | 91 |
| cael gwybodaeth a dealltwriaeth am grefyddau'r byd yng Nghymru | 87 |
| cael gwybodaeth a dealltwriaeth am Gristnogaeth yng Nghymru | 85 |
| dathlu gwahanol wyliau crefyddol | 84 |



05 Davies & Hughes WJE.indd 73 05/10/2016 10:40

cymariaethau rhwng y gorffennol a'r presennol a datblygu dealltwriaeth o newidiadau dros amser (97 y cant). Rhoddwyd bri mawr ar ddysgu am rai o'r cymeriadau allweddol sydd wedi chwarae rhan bwysig yn hanes Cymru (99 y cant). Mae'r ffigurau hefyd yn arddangos lefel uchel iawn o gefnogaeth i hyrwyddo dealltwriaeth o'r modd y mae'r gorffennol wedi dylanwadu ar y presennol ac wedi helpu i'w ffurfio. Teimlai'r mwyafrif llethol y dylid addysgu'r disgyblion i wneud y canlynol: deall sut y ffurfiwyd bywydau a chymunedau Cymru gan y gorffennol (96 y cant); archwilio eu hunaniaeth a'u treftadaeth eu hunain (95 y cant); a dysgu am rai o'r digwyddiadau allweddol sydd wedi ffurfio bywyd modern pob dydd yng Nghymru (78 y cant). Rhoddir pwyslais clir yma ar beidio â chyfyngu profiad disgyblion i hanes un wlad, amser neu ardal. Yn hytrach dylid cyfoethogi profiad myfyrwyr trwy ganiatáu iddynt 'deimlo sut mae eu storïau personol yn rhan o'r darlun ehangach o'r gorffennol a'r presennol' (Llywodraeth Cymru, 2014: 11). Mae hefyd bwyslais ar ddatblygu sgiliau megis: ymchwilio hanesyddol, defnyddio amrywiaeth o ffynonellau; gwerthuso tystiolaeth; meddwl yn ddadansoddiadol; gwneud cymariaethau a chysylltiadau hanesyddol a gwerthuso dadl neu adroddiad (Llywodraeth Cymru, 2014: 11).

**Tabl 6. Dylai hanes hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig trwy roi cyfleoedd i ddisgyblion…**

| | *% cytuno* |
|---|---|
| archwilio hanes y gymuned leol | 100 |
| archwilio hanes cenedlaethol Cymru | 100 |
| dod yn ymwybodol o rai o'r cymeriadau allweddol sydd wedi chwarae rôl bwysig yn hanes Cymru | 99 |
| ymweld â safleoedd hanesyddol | 98 |
| defnyddio arteffactau ac adnoddau eraill | 97 |
| gwneud cymariaethau rhwng y gorffennol a'r presennol a datblygu dealltwriaeth o newidiadau dros amser | 97 |
| deall y modd y mae bywydau ac ardaloedd Cymru wedi eu ffurfio gan y gorffennol | 96 |
| archwilio eu hunaniaeth a'u treftadaeth | 95 |
| dysgu am rai o'r digwyddiadau allweddol sydd wedi ffurfio bywyd pob dydd yng Nghymru | 78 |



05 Davies & Hughes WJE.indd 74 05/10/2016 10:40

Yn Nhabl 7 gwelir y gwerth uchel a roddir gan yr ymatebwyr i gyfraniad daearyddiaeth i'r Cwricwlwm Cymreig. Yn yr un modd ag addysg grefyddol a hanes, teimlai'r ymatebwyr y dylai'r pwnc helpu'r disgyblion i gael dealltwriaeth o ddaearyddiaeth Cymru yn gyffredinol ynghyd â'u hardal leol hwythau. O ran y cyntaf, teimlai'r mwyafrif llethol y dylai disgyblion gael cyfleoedd i adnabod tirnodau allweddol yng Nghymru (98 y cant); dod i ddeall cymeriad a hunaniaeth Cymru yn ei chyfanrwydd (97 y cant); ac ymweld ac astudio amrywiol dirweddau yng Nghymru (97 y cant). O ran yr ail, credai canran uchel y dylai daearyddiaeth helpu disgyblion i wneud y canlynol: cael gwybodaeth am eu cymuned leol (97 y cant); archwilio'r cysylltiadau rhwng rhanbarthau a chymunedau yng Nghymru (86 y cant); a deall rôl diwydiant yn eu cymuned leol (83 y cant). Gwnaed hefyd gysylltiadau â themâu hanesyddol gyda 96 y cant yn mynegi dymuniad i sicrhau bod disgyblion yn dysgu am dreftadaeth wledig a threfol Cymru. Unwaith eto, roedd yr ymatebwyr yn awyddus i bwysleisio y dylid osgoi bod yn rhy fewnblyg ac ynysig ac roedd bron pawb (96 y cant) am i ddisgyblion ddatblygu gwerthfawrogiad o berthynas Cymru â

**Tabl 7. Dylai daearyddiaeth hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig trwy roi cyfleoedd i ddisgyblion…**

| | *% cytuno* |
|---|---|
| nodi tirnodau daearyddol allweddol yng Nghymru | 98 |
| cael dealltwriaeth o gymeriad a hunaniaeth Cymru yn ei chyfanrwydd | 97 |
| cael gwybodaeth am eu cymuned leol | 97 |
| ymweld ag amrywiol dirweddau yng Nghymru a'u hastudio | 97 |
| dysgu am dreftadaeth wledig a threfol Cymru | 96 |
| datblygu gwerthfawrogiad o berthynas Cymru â gwledydd eraill | 96 |
| deall y rôl a chwaraewyd gan ddiwydiant ac amaethyddiaeth o ran ffurfio hunaniaeth y Cymry | 95 |
| archwilio sut y gall mentrau presennol a dyfodol gael effaith ar ddyfodol Cymru | 93 |
| dysgu am ddatblygiad cynaliadwy yng Nghymru a'r byd ehangach | 88 |
| archwilio cysylltiadau rhwng rhanbarthau a chymunedau yng Nghymru | 86 |
| deall y rôl a chwaraeodd diwydiant yn eu hardal leol | 83 |



05 Davies & Hughes WJE.indd 75 05/10/2016 10:40

gwledydd eraill; a dysgu am ddatblygu cynaliadwy yng Nghymru a'r byd ehangach (88 y cant). Ffafrir dull ymholi lle caiff disgyblion gyfleoedd oddi mewn ac oddi allan i'r dosbarth i holi cwestiynau, datblygu sgiliau ymchwilio priodol a dod i gasgliadau synhwyrol ar sail eu hymchwiliadau. Er enghraifft, teimlai 93 y cant y dylai disgyblion gael cyfleoedd i archwilio sut y gall mentrau presennol ac yn y dyfodol effeithio ar ddyfodol Cymru.

## *Casgliadau*

Gellir ffurfio nifer o gasgliadau ar sail y dadansoddiad uchod. Yn gyntaf, dengys yr arolwg fod cefnogaeth gref i'r Cwricwlwm Cymreig ymhlith yr ymatebwyr. Yn ogystal, teimlai'r mwyafrif aruthrol y dylai'r maes hwn fod at ddibenion addysgol (yn hytrach nag unrhyw ddibenion gwleidyddol) ac y dylai helpu'r disgyblion i wneud y canlynol: datblygu syniad o le a threftadaeth (96 y cant); deall a dathlu hynodrwydd byw a dysgu yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain (95 y cant); nodi eu syniad eu hunain o 'Gymreictod' (95 y cant); a chael syniad o berthyn (88 y cant) a dathlu amrywiaeth (75 y cant).

Fodd bynnag, roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr yn awyddus i bwysleisio y dylid cymryd gofal i osgoi rhaglen a oedd yn rhy fewnblyg ac ynysig. Dylai unrhyw raglen fod yn rhan o gwricwlwm eang, cytbwys sy'n galluogi disgyblion i ymfalchïo yn eu dinasyddiaeth fyd-eang yn ogystal â'u dinasyddiaeth Gymreig. Cydnabyddid bod Cymru yn wlad amrywiol ac er mwyn cyflawni ei bwrpas addysgol dylai cynnwys y Cwricwlwm Cymreig amrywio o ysgol i ysgol. Adlewyrchwyd yn gryf yn y data y pwyslais a roddwyd gan ACCAC ar i bob ysgol ddiwallu 'anghenion ei chymdogaeth a'i chymuned leol' (ACCAC, 2003: 6).

Yn ail, er bod dogfennau allweddol (gweler uchod) wedi nodi pum agwedd sy'n hanfodol i'r Cwricwlwm Cymreig, sef yr agweddau diwylliannol, economaidd, amgylcheddol ac ieithyddol, 52 y cant yn unig o'r sampl a danlinellodd bwysigrwydd yr agwedd economaidd yn yr ysgol gynradd. Yr agweddau uchaf eu gwerth i'r ymatebwyr oedd y rhai diwylliannol (98 y cant) a hanesyddol (97 y cant) ac wedyn y rhai amgylcheddol (94 y cant) ac ieithyddol (90 y cant). Er bod yr adran ar gyfer daearyddiaeth yn yr arolwg hwn wedi dangos agweddau cadarnhaol am ddisgyblion cynradd yn dysgu am rôl diwydiant ac amaethyddiaeth yng Nghymru, o'u rhestru ochr yn ochr, cafodd yr agwedd economaidd lai o flaenoriaeth na'r pedair agwedd arall. Yr awgrym yw yr ystyrid hyn gan



05 Davies & Hughes WJE.indd 76 05/10/2016 10:40

ganran sylweddol o'r sampl yn fwy perthnasol yn yr ysgol uwchradd nag yn yr ysgol gynradd. Fodd bynnag, er mwyn elwa'n llawn o ddarpariaeth y Cwricwlwm Cymreig, mae'n hanfodol bod plant ifanc yn dysgu am weithgarwch economaidd gorffennol a phresennol yn eu cymunedau eu hunain yn ogystal â Chymru yn gyffredinol. Awgryma'r data fod angen gwneud rhagor o waith yn y maes hwn i annog athrawon y dyfodol i archwilio'r elfen bwysig hon gyda'u disgyblion yn yr ysgol gynradd. Yn sicr mae hon yn farn a ategir gan adolygiad diweddar yr Athro Graham Donaldson ar Gwricwlwm Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015b) a bwysleisiai'r angen i annog disgyblion i ddatblygu'n 'cyfranwyr mentrus, creadigol sydd … yn cysylltu ac yn cymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu syniadau a chynhyrchion, yn meddwl yn greadigol er mwyn ail-lunio a datrys problemau … ac yn barod i chwarae eu rhan yn llawn yn eu bywyd a'u gwaith' (Llywodraeth Cymru, 2015: 31). Awgryma'r ffigurau fod hwn yn faes y mae angen i athrawon y dyfodol roi blaenoriaeth uwch iddo.

Yn drydydd, dangosodd yr arolwg dystiolaeth o gamddealltwriaeth ac aneglurder ymhlith ysgolion ynghylch cwmpas a natur y Cwricwlwm Cymreig. Dywedodd 83 y cant o'r sampl eu bod wedi dod ar draws tuedd i ganolbwyntio ar ddelweddau ystrydebol o Gymreictod wrth gynllunio ar gyfer y maes pwysig hwn gyda'u hysgolion lleoliad. Pwysleisiwyd hyn yn benodol gan sylw un ymatebwr a welodd fod y Cwricwlwm Cymreig yn rhywbeth a atodwyd ar y diwedd yn ystod sesiynau cynllunio. Tynnodd ymatebwr arall sylw at yr anawsterau a wynebai darpar athrawon pan oedd eu dealltwriaeth hwy o gwmpas y Cwricwlwm Cymreig yn ehangach na'r mentoriaid a'u hasesai. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y gallai tuedd ysgolion i ddefnyddio cynlluniau a gynhyrchwyd yn fasnachol nad oedd yn ystyried o gwbl y dimensiwn Cymreig fod yn rhwystr posibl rhag sicrhau cynllunio da yn y maes hwn.

Dywedodd dros dri chwarter eu bod wedi dod ar draws diffyg cynllunio ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig ar eu lleoliadau. Nododd bron i ddwy ran o dair fod y dogfennau polisi yn y maes hwn yn annelwig ac yn aml yn gopïau o ddogfennau Llywodraeth Cymru na ddywedai lawer am weledigaeth unigol yr ysgol yn y maes hwn. Pwysleisia'r ffigurau yr angen i bob ysgol gynradd ledled Cymru gael gweledigaeth glir ynghylch y modd y mae eu darpariaeth ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig yn diwallu anghenion eu hardal a'u cymuned leol. Awgryma'r dystiolaeth yn yr arolwg hwn na wireddir hyn ymhob ysgol ar hyn o bryd.

Yn bedwerydd, teimlai canran sylweddol o'r ymatebwyr (68 y cant) nad oedd digon o adnoddau addysgu a dysgu ar gyfer y Cwricwlwm Cymreig.



05 Davies & Hughes WJE.indd 77 05/10/2016 10:40

Er bod nifer o adnoddau defnyddiol wedi eu cynhyrchu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i helpu athrawon i hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig, neges glir yr ymatebwyr yw y byddent yn croesawu llawer mwy. Yn sicr, mae adnoddau a llawlyfrau safonol i ddisgyblion o werth mawr, yn enwedig i athrawon sy'n brin o hyder yn y maes hwn. I'r rheini sydd wedi gweithio'n galed i greu'r deunyddiau hyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf y neges glir yw y gwerthfawrogir eu gwaith yn fawr ac y byddai croeso mawr i ragor o adnoddau o'r math hwn. Fodd bynnag, does dim dwywaith nad yr adnodd mwyaf gwerthfawr o lawer ar gyfer addysgu y Cwricwlwm Cymreig yw Cymru ei hun. Er y bydd yr angen am ragor o adnoddau addysgu a dysgu yn parhau, awgryma'r ffigurau fod angen sylweddoli'n gynyddol mai Cymru, ei phobl, ei diwylliannau, ei hanes, ei heconomi, ei chrefyddau a'i hieithoedd yw'r adnoddau mwyaf gwerthfawr ar gyfer addysgu YCC. Yr adnodd mwyaf defnyddiol, o bosibl, i athrawon sy'n llai hyderus yn y maes hwn fyddai arweiniad clir ar y modd y gellid archwilio'r meysydd pwysig hyn yn effeithiol y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth gan alluogi disgyblion, o'r herwydd, i werthfawrogi'n llawn yr hyn sy'n arbennig am fyw yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae ymweliadau ag amgueddfeydd, llyfrgelloedd a pharciau yn rhoi cyfleoedd pellach i blant ifanc wneud cysylltiadau â'u treftadaeth leol a'r 'straeon mawr' (Grigg a Hughes, 2013).

Yn bumed, rhoddodd yr ymatebwyr werth uchel ar gyfraniad y dyniaethau i'r Cwricwlwm Cymreig. Yn eu sylwadau ysgrifenedig, nododd nifer o ymatebwyr na chafodd y dyniaethau bob tro, oherwydd cyfyngiadau amser, ddigon o amser addysgu yn eu hysgolion ymarfer dysgu. Daeth un sylw o'r fath gan ymatebwr a nododd:

> Yn fy ysgolion ymarfer dysgu roedd y pwyslais yn bennaf ar lythrennedd a rhifedd felly nid wy'n teimlo i mi gael digon o gyfleoedd i ddysgu pynciau'r Dyniaethau'n iawn. Rwy'n teimlo bod cyfle wedi ei golli yma. Er bod gan yr holl bynciau gyfraniad pwysig i'w wneud i'r Cwricwlwm Cymreig, rwy'n teimlo mai'r Dyniaethau sy'n gwneud y cyfraniad mwyaf.

O ran addysg grefyddol, teimlai'r ymatebwyr ei bod yn bwysig bod disgyblion yn dysgu, nid yn unig am hanes crefydd yng Nghymru ond hefyd am Gristnogaeth a chrefyddau mawr eraill y byd fel y'u harferir yn y Gymru sydd ohoni. Ffafrient ddull dysgu gweithredol a fanteisiai ar ymweliadau â safleoedd crefyddol yn ogystal â defnyddio arteffactau ac ymwelwyr. Rhoddwyd blaenoriaeth uchel hefyd i ddathlu gwyliau crefyddol a geir yng Nghymru ac archwilio y celfyddydau mynegiannol yng



05 Davies & Hughes WJE.indd 78 05/10/2016 10:40

Nghymru gan gynnwys cerddoriaeth grefyddol, llenyddiaeth, celf ac adeiladau.

Rhoddwyd pwysigrwydd uchel i rôl hanes wrth hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig. Teimlai'r holl ymatebwyr y dylai disgyblion ddysgu am hanes Cymru a hanes eu cymunedau lleol. Pwysleisiodd nifer uchel cyffelyb yr angen i ddisgyblion ddeall sut y ffurfiwyd bywydau a chymunedau Cymru gan y gorffennol. Unwaith eto, ffafriwyd dull dysgu gweithredol gyda phwyslais ar ymweliadau â safleoedd hanesyddol; defnyddio arteffactau ac adnoddau eraill a datblygu sgiliau allweddol yn y pwnc.

Teimlai'r ymatebwyr fod daearyddiaeth yn gwneud cyfraniad pwysig iawn i helpu disgyblion i gael gwell dealltwriaeth o gymeriad a hunaniaeth Cymru. Teimlent fod y pwnc yn helpu disgyblion i gael dealltwriaeth o'u cymunedau eu hunain ynghyd â Chymru yn ei chyfanrwydd. Roedd y rôl a chwaraewyd gan ddiwydiant ac amaethyddiaeth wrth ffurfio hunaniaeth Cymru hefyd yn rhywbeth y teimlent y dylai disgyblion ei dysgu yn eu gwersi daearyddiaeth yn ogystal â phwysigrwydd datblygiad cynaliadwy yng Nghymru a'r byd ehangach. Adlewyrcha'r farn hon Donaldson a bwysleisiodd fod maes y dyniaethau 'yn cynnig cyd-destunau deniadol i blant a phobl ifanc ddysgu am bobl, lle, amser a chred' (Llywodraeth Cymru, 2015a: 46).

Pwyslais mawr yr ymatebwyr oedd bod gan y dyniaethau rôl bwysig iawn i'w chwarae wrth hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig ond oherwydd pwysau ar amser addysgu na wireddwyd hyn bob tro yn eu hysgolion lleoliad. Byddai'n dda i ni wrando ar eiriau un ymatebwr a rybuddiodd:

> Yn ein hawch ni i ddysgu llythrennedd mae weithiau'n hawdd anghofio bod angen i iaith gael cyd-destun. Gall y Dyniaethau ddarparu'r cyd-destun perffaith ar gyfer datblygu llythrennedd ac o'u defnyddio nhw'n effeithiol gallan nhw ddarparu'r llwybr delfrydol ar gyfer hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig.

Er bod yr ymatebwyr yn llwyr gydnabod y cyfraniad pwysig y dylai pob maes o'r cwricwlwm ei wneud i'r Cwricwlwm Cymreig, y neges a gyflëwyd yn gryf yn eu hymatebion oedd, 'Peidiwch ag anghofio cyfraniad unigryw'r Dyniaethau'.

## *Cyfeiriadau*

Adran Gymreig y Weinyddiaeth Addysg (1949). *Pamffled Rhif 4: Y Broblem Ddwyieithog yn yr Ysgol Uwchradd yng Nghymru*. Llundain: HMSO.

Adran Gymreig y Weinyddiaeth Addysg (1952). *Pamffled Rhif 6: Y Cwricwlwm a'r Gymuned yng Nghymru*. Llundain: HMSO.

Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC) (2003). *Datblygu'r Cwricwlwm Cymreig*. Caerdydd: ACCAC.

Y Bwrdd Addysg (1927). *Y Gymraeg mewn Addysg a Bywyd. Adroddiad y Pwyllgor Adrannol*. Llundain: HMSO.

Cyngor Cwricwlwm Cymru (CCC) (1991a). *Y Cwricwlwm Cyflawn – Egwyddorion a Materion i'w Ystyried gan Ysgolion wrth Gynllunio Cwricwlwm ac Integreiddio*. Caerdydd: CCC.

Cyngor Cwricwlwm Cymru (CCC) (1991b). *Y Cwricwlwm Cyflawn 5–16 yng Nghymru*. Caerdydd: CCC.

Cyngor Cwricwlwm Cymru (CCC) (1993). *Papur Ymgynghorol 18: Datblygu Cwricwlwm Cymreig*. Caerdydd: CCC.

Y Cyngor Ysgolion (1979). *Report of the Schools Council Working Party on Welsh Studies in the Primary School*. Caerdydd: Y Cyngor Ysgolion.

Estyn (2001). *Y Cwricwlwm Cymreig. Dimensiwn Cymreig y Cwricwlwm yng Nghymru: arfer dda mewn addysgu a dysgu*. Caerdydd: Estyn.

Grigg, R. a Hughes, S. (2013). *Teaching Primary Humanities*. Harlow: Pearson.

Llywodraeth Cymru (2013). *Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014). *Cymwys am Oes: Cynllun Gwella Addysg ar gyfer 3 i 19-mlwydd-oed yng Nghymru*. Cyflwyniad gan y Gweinidog Addysg Huw Lewis. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015a). *Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*, Yr Athro Graham Donaldson CB, Chwefror 2015. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2015b). *Cwricwlwm i Gymru – Cymwys am Oes* (Hydref 2015) Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008). *Manteisio i'r eithaf ar ddysgu. Gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

## *Nodyn*

[1] Er enghraifft, 'dysgu sut y gall datblygiad o ran adnoddau a thechnoleg, yn y gorffennol a'r presennol, newid bywyd yng Nghymru; gwerthfawrogi'r rhan sydd gan sectorau gwahanol o'r boblogaeth ym mywyd economaidd Cymru; ymweld ag enghreifftiau o weithgarwch economaidd y gorffennol a'r presennol a gwneud gwaith ymchwil arnynt' (ACCAC, 2003: 4).



05 Davies & Hughes WJE.indd 80 05/10/2016 10:40